Met Office

# Archwilio cwis effeithiau hinsawdd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Yn ein lleoliad ni o... India** | **Oherwydd newid yn yr hinsawdd...** | **Effaith hyn yw...** | **Beth ellir ei wneud i helpu?** |
| Mae llawer o ffermwyr yn dibynnu ar y dŵr tawdd o rewlifoedd ac eira ym Mynyddoedd yr Himalaia i ddyfrio eu cnydau a'u rhoi i'w hanifeiliaid. | Mae rhewlifoedd yn toddi'n gyflymach wrth i'r tymheredd godi. | Efallai na fydd gan ffermwyr ddigon o ddŵr i allu cadw eu cnydau neu eu hanifeiliaid yn fyw. | Efallai y bydd angen i ffermwyr ddechrau plannu cnydau sydd angen llai o ddŵr. Beth arall fyddech chi'n ei awgrymu? |
| **Yn ein lleoliad ni o... Brasil** | Oherwydd newid yn yr hinsawdd... | **Effaith hyn yw...** | **Beth ellir ei wneud i helpu?** |
| Mae llawer o bobl yn byw yng nghoedwig law yr Amazon, ac yn dibynnu arno am fwyd a meddygaeth. | Mae'r tymor sych yn y goedwig law yn mynd yn hirach ac mae'r tymheredd yn codi. | Mae tanau coedwig yn fwy tebygol, sy'n golygu bod rhai pobl yn colli eu cartrefi neu dir mewn tanau ac yn gorfod symud i ffwrdd. | Mae torri llawer o goed i lawr yn golygu bod y goedwig yn fwy sensitif i danau. Gall gwleidyddion a phobl sy'n byw yno geisio amddiffyn y rhanbarth rhag datgoedwigo. Beth arall fyddech chi'n ei awgrymu? |
| Yn ein lleoliad ni o... Namibia | **Oherwydd newid yn yr hinsawdd...** | **Effaith hyn yw...** | **Beth ellir ei wneud i helpu?** |
| Mae llawer o bobl yn cael eu dŵr o lynnoedd ac afonydd ar gyfer ffermio a diwydiant. | Mae tymheredd yr aer yn codi ac mae glawiad yn gostwng. Mae mwy o ddŵr yn anweddu o lynnoedd ac afonydd | Mae llai o ddŵr i bobl ei yfed, a'i ddefnyddio ar gyfer ffermio a diwydiant. | Defnyddiwch dechnoleg newydd i ganfod ffyrdd i storio dŵr pan fydd ar gael, efallai o dan y ddaear. Beth arall fyddech chi'n ei awgrymu? |
| Yn ein lleoliad ni o... Fiji | **Oherwydd newid yn yr hinsawdd...** | **Effaith hyn yw...** | **Beth ellir ei wneud i helpu?** |
| Mae llawer o bobl yn byw mewn pentrefi, trefi a dinasoedd ar yr arfordir. | Mae lefelau'r môr yn codi. | Mae cymunedau arfordirol yn dioddef llifogydd yn amlach. | Efallai y bydd rhaid i bobl symud i mewn i'r tir neu adeiladu mwy o amddiffynfeydd llifogydd. Mae'n bwysig helpu pobl i gadw'n ddiogel rhag llifogydd. Beth arall fyddech chi'n ei awgrymu? |
| Yn ein lleoliad ni o... Alasga | **Oherwydd newid yn yr hinsawdd...** | **Effaith hyn yw...** | **Beth ellir ei wneud i helpu?** |
| Mae llawer o dai a ffyrdd yn cael eu hadeiladu ar dir sydd bob amser wedi'i rewi. Mae hyn yn darparu sylfaen gadarn ar eu cyfer. | Mae'r tymheredd yn codi ac mae tir sydd wedi'i rewi yn dechrau toddi a symud. | Gall tai a ffyrdd ddatblygu craciau, sy'n golygu eu bod yn beryglus byw ynddynt neu yrru arnynt. Mewn rhai lleoedd, mae pentrefi a threfi cyfan mewn perygl. | Efallai y bydd angen symud neu ailadeiladu rhai adeiladau neu ffyrdd. Gall technoleg newydd helpu i faglu gwres yn y ddaear a'i chwythu i'r awyr, gan gadw'r ddaear wedi'i rewi. Beth arall fyddech chi'n ei awgrymu? |
| Yn ein lleoliad ni o... Wganda | **Oherwydd newid yn yr hinsawdd...** | **Effaith hyn yw...** | **Beth ellir ei wneud i helpu?** |
| Mae llawer o bobl yn byw yng nghefn gwlad, yn tyfu cnydau i'w bwyta ac i'w gwerthu. | Mae newidiadau i batrymau glawiad a thymereddau sy'n codi yn golygu nad yw llawer o gnydau yn tyfu cystal ag yr oeddent yn arfer. | Mae mwy a mwy o bobl yn symud i ffwrdd o gefn gwlad i drefi a dinasoedd, gan na allant ennill arian yn tyfu cnydau mwyach. | nnog ffermwyr i dyfu cnydau a all ymdopi'n well â llai o ddŵr a thymheredd poethach. Beth arall fyddech chi'n ei awgrymu? |